NICE National Institute for Health and Care Excellence

Daratumumab gyda bortezomib a dexamethasone ar gyfer myeloma lluosog a driniwyd yn flaenorol

10 Ebrill 2019

Mae Daratumumab (Darzalex) gyda bortezomib a dexamethasone ar gael drwy'r Gronfa Cyffuriau Canser fel triniaeth bosibl ar gyfer myeloma lluosog atglafychol neu anhydrin ymhlith oedolion sydd wedi cael 1 sesiwn o driniaeth flaenorol.

Caiff rhagor o dystiolaeth ar daratumumab gyda bortezomib a dexamethasone ei chasglu hyd at fis Ionawr 2021. Ar ôl hyn, bydd NICE yn penderfynu p'un a fydd yn argymell y dylid ei ddefnyddio ar y GIG ac yn diweddaru'r canllawiau. Bydd ar gael drwy'r Gronfa Cyffuriau Canser tan hynny.

Os nad ydych yn gymwys i gael daratumumab, ond eich bod eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

Gwybodaeth a chymorth

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Myeloma UK, 0800 980 3332
- Bloodwise, 0808 2080 888
- Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 000

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3285-6

© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.